

Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud

DIBEN Y GRANT

Diben y cynllun grant hwn yw cefnogi busnesau gyda'u llif arian parod ar hyn o bryd a'u helpu i oroesi canlyniadau economaidd y **cyfyngiadau ychwanegol** a gyflwynwyd ar 4 Rhagfyr i reoli lledaeniad COVID-19.

Yn wahanol i gynlluniau grant ardrethi annomestig blaenorol sy'n gysylltiedig â COVID-19, mae'r cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 2020 (a phwnc y canllawiau hyn) o natur wedi eu targedu'n well i ddarparu cymorth uniongyrchol i fusnesau lletygarwch yn bennaf. Bydd y grantiau ar gael i fusnesau lletygarwch, twristiaeth a hamdden yn ogystal a'r cadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â'r sectorau hyn a rhai busnesau manwerthu sy'n gallu dangos effaith sylweddol ar eu gweithgarwch masnachu o ganlyniad i'r cyfyngiadau ychwanegol a gyflwynwyd.

Fel gyda chynlluniau blaenorol, bydd y grantiau newydd hyn yn ategu cynlluniau Llywodraeth y DU, gyda chostau cyflogaeth yn cael eu talu'n bennaf drwy'r Cynllun Cadw Swyddi (JRS). Mae cynllun grant Cronfa Gadernid Economaidd arall sy'n benodol i'r sector, a gaiff ei weinyddu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2021.

Bydd y grant yn agored i geisiadau gan fusnesau lletygarwch ar 16 Rhagfyr 2020 ac i fusnesau cymwys eraill ar 4 Ionawr 2021.

BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi eu teilwra, gan gynnwys mynediad at offerynnau ar-lein, gweithdai, cynghorwyr arbenigol a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda chi i lunio diagnostig busnes a chynllun gweithredu, gall ein cynghorwyr hefyd ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a'ch helpu i gael mynediad at gymorth arall a allai fod o fudd i chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.busnescymru.llyw.cymru.

PWY ALL WNEUD CAIS AC AM FAINT?

Mae'r cynlluniau grant cysylltiedig ag ardrethi annomestig sy'n cael eu cyflwyno gan Weinidogion Cymru ar gyfer y cyfnod cyfyngiadau rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021 fel a ganlyn.

i) Grant A:

Taliad **grant arian parod o £3,000 ar gyfer** busnesau lletygarwch gyda hereditamentau sy'n gymwys i dderbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach. Bydd awdurdodau lleol yn prosesu'r taliad grant hwn o £3,000 ar gyfer busnesau lletygarwch cymwys a dderbyniodd grant sy'n gysylltiedig â Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (SBRR) drwy'r cynllun Cyfnod Atal Byr diweddar heb fod angen cyflwyno unrhyw brosesau ymgeisio pellach.

Bydd angen i fusnesau lletygarwch cymwys **na chyflwynodd** eu manylion am grant ardrethi annomestig yn ystod y Cyfnod Atal Byr lenwi ffurflen gofrestru fer (gweler tudalen 4 am ragor o wybodaeth).

Bydd Grant A ar gael i fusnesau lletygarwch, twristiaeth a hamdden a'u cadwyn gyflenwi a busnesau manwerthu sydd ag eiddo SBRR cymwys a all ddangos (ar sail hunanddatganedig) ostyngiad o fwy na 40% mewn trosiant **o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfyngiadau newydd**.

Bydd awdurdodau lleol yn agor y broses gofrestru ar gyfer busnesau lletygarwch ar 16 Rhagfyr ac ar gyfer busnesau cymwys eraill ar 4 Ionawr. Gofynnir i fusnesau sy'n gwneud cais yn ffenestr mis Ionawr hunanddatgan drwy ffurflen gofrestru fer os oedd ganddynt ostyngiad o 40% mewn trosiant ar gyfer mis Rhagfyr 2020 o gymharu â mis Rhagfyr 2019 neu o gymharu â throsiant ar gyfer Medi 2020 os nad oeddent yn masnachu ym mis Rhagfyr 2019.

I fod yn gymwys ar gyfer y grant hwn, bydd gan fusnesau hereditament gyda gwerth ardrethol o £12,000 neu lai.

Ar gyfer busnesau sydd angen cofrestru, mae'n rhaid bod eu hereditament wedi bod ar y rhestr raddio Ardrethi Annomestig ar 1 Medi 2020 ac mae angen i'r trethdalwr fod wedi bod yn feddiannydd ar yr eiddo ar 30 Tachwedd 2020.

Mae'r cyfyngiad eiddo lluosog sy'n berthnasol i'r cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn berthnasol i'r grant hwn. Felly, dim ond ar gyfer uchafswm o ddau eiddo ym mhob ardal awdurdod lleol y caiff yr un trethdalwr dderbyn y grant.

Bydd Grant A hefyd yn berthnasol i bob trethdalwr sy'n gymwys i gael rhyddhad elusennol a rhyddhad Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC), sy'n gweithredu yn y sectorau hamdden a lletygarwch wedi'u lleoli mewn eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £12,000. Mae disgrisiwn gan awdurdodau lleol i ddarparu grantiau i gyrff dielw yr ystyriant sy'n gweithredu at ddibenion elusennol ond nad ydynt yn cael rhyddhad elusennol na rhyddhad CASC ar hyn o bryd. Dim ond i sefydliadau dielw sy'n cael rhyddhad ardrethi dewisol neu sydd â hawl iddo ac sy'n gweithredu yn y sectorau , hamdden neu lletygarwch y mae'r disgrisiwn hwn yn berthnasol.

ii) Grant B:

Taliad grant arian parod o **£5,000** ar gyfer busnesau lletygarwch sy'n meddiannu hereditamentau sydd â gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £51,000. Bydd awdurdodau lleol yn prosesu'r taliad grant hwn o £5,000 ar gyfer busnesau lletygarwch cymwys a dderbyniodd grant o £5,000 sy'n gysylltiedig ag ardrethi annomestig drwy'r cynllun Cyfnod Atal Byr diweddar heb fod angen cyflwyno unrhyw brosesau ymgeisio pellach.

Bydd angen i fusnesau lletygarwch cymwys **na chyflwynodd** eu manylion am grant ardrethi annomestig yn ystod y Cyfnod Atal Byr lenwi ffurflen gofrestru fer a fydd ar gael yn ystod mis Rhagfyr 2020.

Bydd Grant B ar gael i fusnesau lletygarwch, twristiaeth a hamdden a'u cadwyn gyflenwi a busnesau manwerthu sydd â gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £51,000 a all ddangos (ar sail hunanddatganedig) ostyngiad o fwy na 40% mewn trosiant **o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfyngiadau newydd**.

Bydd awdurdodau lleol yn agor y broses gofrestru ar gyfer busnesau lletygarwch ar 16 Rhagfyr ac ar gyfer busnesau cymwys eraill ar 4 Ionawr. Gofynnir i fusnesau sy'n gwneud cais yn ffenestr mis Ionawr hunanddatgan drwy ffurflen gofrestru fer os oedd ganddynt ostyngiad o 40% mewn trosiant ar gyfer mis Rhagfyr 2020 o gymharu â mis Rhagfyr 2019 neu o gymharu â throsiant ar gyfer Medi 2020 os nad oeddent yn masnachu ym mis Rhagfyr 2019.

Ar gyfer busnesau sydd angen cofrestru, mae'n rhaid bod eu hereditament wedi bod ar y rhestr raddio ardrethi annomestig ar 1 Medi 2020 ac mae angen i'r trethdalwr fod wedi bod yn feddiannydd ar yr eiddo ar 30 Tachwedd 2020.

Mae'r grant hefyd ar gael i sefydliadau dielw sy'n meddiannu eiddo lletygarwch a hamdden cymwys.

iii) Grant C:

Taliad grant arian parod o **£5,000** ar gyfer busnesau lletygarwch sy'n meddiannu hereditamentau sydd â gwerth ardrethol o rhwng £51,001 a £150,000. Mae'n rhaid bod hereditament yr ymgeisydd wedi bod ar y rhestr raddio ardrethi annomestig ar 1 Medi 2020 ac mae angen i'r trethdalwr fod wedi meddiannu'r eiddo ar 30 Tachwedd 2020.

Bydd angen i fusnesau gwblhau proses gofrestru fer a fydd ar gael yn ystod mis Rhagfyr 2020.

Bydd Grant C ar gael i fusnesau lletygarwch, twristiaeth a hamdden a'u cadwyn cyflenwi a busnesau manwerthu sydd â gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £51,000 a all ddangos (ar sail hunanddatganedig) ostyngiad o fwy na 40% mewn trosiant **o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfyngiadau newydd**.

Bydd awdurdodau lleol yn agor y broses gofrestru ar gyfer busnesau lletygarwch ar 16 Rhagfyr ac ar gyfer busnesau cymwys eraill ar 4 Ionawr. Gofynnir i fusnesau sy'n gwneud cais yn ffenestr mis Ionawr hunanddatgan drwy ffurflen gofrestru fer os oedd ganddynt ostyngiad o 40% mewn trosiant ar gyfer mis Rhagfyr 2020 o gymharu â mis Rhagfyr 2019 neu o gymharu â throsiant ar gyfer Medi 2020 os nad oeddent yn masnachu ym mis Rhagfyr 2019.

Mae'r grant hefyd ar gael i sefydliadau dielw sy'n meddiannu eiddo lletygarwch cymwys.

1. Mewn perthynas â llety hunanarlwyo, mae'r un canllawiau ag ar gyfer cynlluniau grant blaenorol sy'n gysylltiedig ag ardrethi annomestig yn berthnasol, sef na fydd eiddo'n gymwys i gael y grant oni bai bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:
 - Gall y llety hunanarlwyo ddarparu dwy flynedd o gyfrifon masnachu am y cyfnod yn union cyn blwyddyn ariannol gyfredol y busnes
 - Rhaid bod y llety hunanarlwyo wedi'i osod am gyfnod o 140 diwrnod neu fwy ym mlwyddyn ariannol 2019-20
 - Rhaid i'r busnes llety hunanarlwyo fod yn brif ffynhonnell incwm i'r perchennog (isafswm trothwy yw 50%).
2. Ar gyfer eiddo hunanarlwyo, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn llawn i ofyn am gyfrifon busnes masnachu, rhestrau archebu a ffurflenni treth hunanasesu a gyflwynwyd i CThEM ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 os oes angen tystiolaeth ychwanegol i ddangos i'r meini prawf hyn gael eu bodloni.
3. Mewn perthynas â gamblo a hapchwarae, mae arcedau o'r math y gellid eu dosbarthu'n ddifyrwch yn hytrach na safleoedd hapchwarae yn cael eu hystyried yn sefydliadau hamdden ac maent yn gymwys i gael y grantiau naill ai drwy'r llwybr rhyddhad ardrethi busnesau bach neu, os yw gwerth ardrethol y safle'n eu gwneud yn gymwys, am y grant mwy o £5,000 fel cyfleusterau hamdden.
4. O ran sefydliadau hapchwarae (sydd fel arfer i'w gweld mewn amgylchedd canol dinas ond a allai fod wedi'u lleoli yn unrhyw le hefyd) sydd fel arfer â mynediad cyfyngedig i bobl 18 oed a throsodd ac sydd a) heb hawl i ryddhad ardrethi i fusnesau bach a b) lle mai gamblo

yn hytrach na difyrrwch yw'r prif weithgaredd, nid ydynt yn gymwys ar gyfer y grant manwerthu, hamdden a lletygarwch. Mae canllawiau'r cynllun Ardrethi Annomestig ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru – 2020-21 yn eithrio hereditamentau gamblo yn benodol.

Ni fydd busnesau'n gymwys i dderbyn y naill grant neu'r llall os yw un o'r categorïau canlynol yn berthnasol:

- Gorfodwyd i gau ar ôl torri rheolau cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, os oes gwelliannau wedi'u gwneud a bod y busnes wedi cael ailagor yna mae'n bosibl y gall fod yn gymwys i gael y grant (yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd).
- Busnesau a ddewisodd gau ond nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny
- Heb fod wedi'u diddymu neu yn y broses o gael eu dileu
- Wedi croesi'r terfyn Cymorth Gwladwriaethol

Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud – SUT I WNEUD CAIS

Gall busnesau wneud cais am y grant drwy fynd i dudalen we Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud eu Hawdurdod Lleol. Os byddwch yn gymwys, byddwch yn gallu cael mynediad i'r ffurflen gais ar-lein, cwblhau pob maes gofynnol a chyflwyno'ch cais. Noder bod pob maes yn orfodol – bydd methu â'u cwblhau yn arwain at wrthod eich cais.

Bydd y grant yn agored i geisiadau gan fusnesau lletygarwch ar 16 Rhagfyr 2020 ac i fusnesau cymwys eraill ar 4 Ionawr 2021.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn llwyr i bennu hyd a thelerau'r gronfa.

Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud – CANLLAWIAU AR GWBLHAU'R FFURFLEN

Adran 1 – Gwybodaeth am eich busnes

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am eich busnes. Gwnewch yn siŵr bod y manylion yn yr adran hon yn gywir ac yn gyflawn. **Ni** fydd ffurflenni sy'n cynnwys data anghyflawn neu anghywir yn cael eu prosesu.

Adran 2 – Eich Manylion Personol

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi 'yr ymgeisydd'.

Adran 3 – Effaith COVID-19 ar eich busnes

Cadarnhewch neu fel arall os yw'r datganiadau ar y ffurflen gais yn berthnasol i'ch busnes. Os yn cyflwyno cais ym mis Ionawr cwblhewch y tabl gyda ffigwr trosiant ar gyfer mis Rhagfyr 2020 a'r trosiant ar gyfer mis Rhagfyr 2019 (neu'r trosiant mis Medi 2020 os nad oeddech yn masnachu yn mis Rhagfyr 2019).

Adran 4 – Manylion Banc

Rhowch fanylion eich cyfrif banc busnes gan y bydd wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad grant i chi – gwnewch yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir.

Dylai busnesau fod wedi bod yn masnachu'n weithredol hyd at 4 Rhagfyr 2020, pan gyflwynwyd y cyfyngiadau newydd yng Nghymru, a hwyrach y bydd yn ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth i ddangos hyn

Adran 5 – Cymorth Gwladwriaethol

Rhaid i chi ddatgan a ydych wedi derbyn unrhyw Gymorth Gwladwriaethol (yn cynnwys Cymorth De Minimis yn ystod y tair blynedd ariannol flaenorol (h.y. y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol) ynghyd â'r swm a dderbyniwyd a manylion y corff dyfarnu.

Dylech gynnwys yr holl gymorth ariannol cysylltiedig â COVID-19 a dderbyniwyd gennych ers mis Mawrth 2020.

Gallai enghreifftiau gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd, y Grant Cychwyn Busnes, y Grant Ardrethi Annomestig (cylch 1)

Beth yw Cymorth De Minimis?

Er mwyn lleihau gwrthdroad cystadleuaeth i'r lefel isaf posibl, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn pennu terfyn ar faint o gymorth y ceir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol. Dan reoliad 1407/2013 yr UE (rheoliad Cymorth De Minimis) fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd 24/12/2013 mae'r cymorth yn gymorth de minimis.

Mae terfyn o €200,000 (€100,000 ar gyfer gweithrediadau'r sector cludo nwyddau ar y ffordd) ar gyfer yr holl gymorth de minimis a ddarperir i un sefydliad dros gyfnod o dair blynedd ariannol (h.y. y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol). Bydd unrhyw gymorth de minimis a ddarperir i chi o dan y gwasanaeth hwn yn berthnasol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw gymorth de minimis arall a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol, gan y bydd angen i ni sicrhau na fydd ein cymorth ni, ar ôl ei ychwanegu at yr hyn a gafwyd eisoes, yn fwy na'r trothwy o €200,000 (€100,000 ar gyfer gweithrediadau'r sector cludo nwyddau ar y ffordd) dros y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r cymorth yn cynnwys nid yn unig grant ond hefyd cymorth megis gwasanaethau cynghori am ddim neu â chymhorthdal, cyngor marchnata ac ati. Os oes gennych unrhyw amheuaeth o ran a yw'r cymorth a dderbyniwyd eisoes yn cyfrif fel cymorth de minimis dylech ei gynnwys.

Adran 6 – Datganiadau

Darllenwch y datganiadau'n ofalus a thiciwch y blychau i gadarnhau eich bod yn derbyn ac yn deall y datganiadau.

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen a deall y ddogfen ganllawiau hon.

Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?

Cydnabyddir bod eich cais wedi cael ei dderbyn o fewn 10 diwrnod gwaith.

Gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar sail y wybodaeth a roddir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a gwybodaeth o wiriadau a gynhelir ar ffynonellau data busnes arall. Os rhoddir data anghyflawn neu anghywir, neu os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn annigonol, **ni** fyddwn yn prosesu'r ffurflen a gwrthodir y cais.

Ein nod yw prosesu ceisiadau grant o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.

Bydd 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw.

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod eich cais. Nid oes proses apelio.

Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud – AD-DALU GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod yn bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn i'r grant gael ei adalu'n llawn neu'n rhannol os daw tystiolaeth i'r amlwg i ddangos nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud.